# Agenda - Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

Lleoliad:

**Fideogynhadledd drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Iau, 1 Hydref 2020

Amser: 09.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Martha Howells**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddDGCh@senedd.cymru

## Cyfarfod cyn-gofrestru

(09.00 - 09.30)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

## 2 COVID-19: Tystiolaeth ar effaith y pandemig ar y Gymraeg

(09.30-10.30) (Tudalennau 1 - 14)

Aled Roberts, Comisiynydd y Gymraeg

Dyfan Sion, Cyfarwyddwr Strategol, Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg

## Egwyl

(10.30-10.45)

## 3 Craffu blynyddol ar waith Comisiynydd y Gymraeg Adroddiad Blynyddol

(10.45-11.30) (Tudalennau 15 - 28)

Aled Roberts, Comisiynydd y Gymraeg

Dyfan Sion, Cyfarwyddwr Strategol, Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg

Gwenith Price, Dirprwy Gomisiynydd

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## 4 Craffu blynyddol ar waith Comisiynydd y Gymraeg Adroddiad Sicrwydd

(11.30 - 12.00) (Tudalennau 29 - 31)

Aled Roberts, Comisiynydd y Gymraeg

Gwenith Price, Dirprwy Gomisiynydd

Guto Dafydd, Uwch Swyddog Cydymffurfio

## 5 Papur(au) i'w nodi

### 5.1 Llythyr gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol ynghylch ymgynghoriad y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol

(Tudalennau 32 - 33)

### 5.2 Llythyr ynglyn ag addysg gerdd yng Nghymru

(Tudalennau 34 - 36)

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

## 7 Ôl-drafodaeth breifat

(12.00-12.30)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 3

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol**
**Minister for Housing and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref:

At: Cadeiryddion Pwyllgorau

21 Medi 2020

Annwyl Bawb,

Yn dilyn ymgynghori eang ar y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol y flwyddyn nesaf, rwyf heddiw wedi cyflwyno'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft gerbron y Senedd ar gyfer y cyfnod ystyriaeth 60 niwrnod.

Daw'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol gydag adroddiad ymgynghori sy'n pennu'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad, amserlen o newidiadau yr wyf yn bwriadu eu gwneud wedi ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad, a gwerthusiad cynaliadwyedd integredig wedi'i ddiweddaru. Maent i'w gweld yn y fan yma.

I helpu â'r broses graffu, rwyf wedi cyhoeddi dwy ddogfen heddiw. Mae'r gyntaf yn esbonio sut yr wyf am fonitro'r Fframwaith ar ôl ei gyhoeddi; ac mae'r ail yn fersiwn o'r ddogfen rhestru newidiadau gafodd ei osod yn yr un fformat â fersiwn ddrafft y Fframwaith yr ymgynghorwyd arno llynedd. Mae'r dogfennau i'w gweld yn y fan yma

Byddaf yn cyflwyno cynnig i'w ddiwygio o fewn amser y llywodraeth i roi cyfle i'r Senedd fynegi ei barn ar (ond nid gymeradwyo) y Cynllun Datblygu Drafft. Cynhelir y drafodaeth yn ystod cyfnod ystyried y Senedd o 60 niwrnod fel y gall y Llywodraeth ystyried y materion a godwyd yn ogystal ag unrhyw argymhellion gan Bwyllgorau'r Senedd o fewn cyfnod addas.

Yn ystod yr ymgynghoriad y llynedd ar y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft, tynnodd aelodau'r Senedd fy sylw at ba mor bwysig oedd i bawb allu deall beth yw'r Fframwaith a'r hyn mae'n ei olygu iddyn nhw. Roedd rhai o'r farn nad oedd yr enw 'fframwaith datblygu cenedlaethol' yn egluro beth oedd y Fframwaith na beth oedd ei ddiben. Rwyf wedi meddwl am y mater hwn ac wedi gofyn i Blant yng Nghymru helpu i ddatblygu teitl newydd. Gwnaethon nhw awgrymu 'Cymru'r Dyfodol – Y Cynllun Cenedlaethol 2040'. Pan fydd yn cael ei gyhoeddi dyma fydd enw newydd y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, gyda'r talfyriad 'Cymru'r Dyfodol' yn gael ei ddefnyddio. Byddwch yn gweld yr enw newydd hwn mewn rhai o'r dogfennau a ddefnyddir yn ystod y broses graffu.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Dw i’n edrych ymlaen at gydweithio â’r Senedd ar gwblhau Cymru’r Dyfodol, ein Fframwaith Datblygu Cenedlaethol cyntaf.

Yn gywir,

**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
Minister for Housing and Local Government

Kirsty Williams
Y Gweinidog dros Addysg,
Senedd Cymru,
Caerdydd
CF99 1NA

23 Medi 2020

Annwyl Ms Williams

Ysgrifennwn ar ran darparwyr addysg gerdd Cymru sy'n credu y dylai addysg gerdd yn ei holl ffurfiau fod yn rhan annatod o fywyd ysgol pob disgybl yng Nghymru. Galwn arnoch i gefnogi ac ymrwymo ar goedd i'r uchelgais yma.

Pwnc anhepgor yw cerddoriaeth mewn cwricwlwm eang a chytbwys. Ceir tystiolaeth gref – nid lleiaf wedi'i chasglu o bob cwr o'r DU dros y chwe mis diwethaf – fod ganddi effaith hynod gadarnhaol ar iechyd a llesiant plant a phobl ifainc. Mae'r sgiliau a ddysgir drwy gerddora ymarferol yn darparu medrau trosglwyddadwy gwerthfawr sydd o fudd o ran cyflogadwyedd. Ar ben hynny, mae cerddoriaeth ar ganol sawl rhan o'r sector creadigol, gan gynhyrchu ar ei phen ei hun wariant o dros £124M yng Nghymru yn 2018.

Er gwaethaf hyn, mae cryn annhegwch o ran mynediad i addysg gerdd ar draws Cymru. Mae darpariaeth gwasanaethau cerddoriaeth y wlad wedi'i herydu dros flynyddoedd lawer sydd, yn ôl pob golwg, wedi digwydd heb i neb sylwi. Mae a oes gynnoch chi fynediad i ddysgu offerynnau, cyfleoedd i ymuno ag ensembles a'r cyfle i fynychu a pherfformio mewn digwyddiadau cerddoriaeth proffesiynol ysbrydoledig yn dibynnu ar le rydych yn digwydd byw.

Amlygwyd llawer o heriau gan adolygiad o addysg gerdd yng Nghymru gan y Pwyllgor Diwylliant a'r Gymraeg ddwy flynedd yn ôl. Ers hynny, mae'r sector wedi croesawu'n gynnes fenter Llywodraeth Cymru wrth gomisiynu astudiaeth ddichonoldeb i edrych ar brif argymhellion yr adroddiad 'Taro'r Nodyn Cywir'. Bu croeso hefyd i sefydlu grŵp rhanddeiliaid ac adroddwyd eu casgliadau'n ôl i Lywodraeth Cymru mai hanfodol oedd yr argymhelliad trosfwaol yn adroddiad y Pwyllgor Diwylliant a'r Gymraeg i baratoi cynllun cenedlaethol i addysg gerdd yng Nghymru ynghyd â chyllid interim pellach. Ni welwyd dim o'r arian na'r cynllun ac er bod yr heriau a nodwyd ddwy flynedd yn ôl yn parhau, mae'r pandemig wedi gwanio gwasanaethau cerdd a sefydliadau eraill ymhellach gan effeithio ar y cyfleoedd i garfan gyfan o ddisgyblion.

Mae angen gweithredu ar frys i achub y gwasanaethau addysg gerdd ledled y wlad sy'n dal i ymdrechu i ddarparu cyfleoedd i blant a phobl ifainc - gerfydd croen eu dannedd yn achos rhai. Dim ond drwy weithredu ar frys a llwybr clir i dyfu a chynnal eu gwaith y gall y gwasanaethau hyn sicrhau mynediad i blant a phobl ifainc i amrywiaeth eang o gyfleoedd cerddorol.

Yn Lloegr, mae'r Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Addysg Gerdd a gyhoeddwyd yn 2012 yn mynegi'n glir gyfrifoldebau pob un sy'n ymwneud ag addysg gerdd plant a phobl ifainc, yn enwedig ysgolion a rhwydwaith o bartneriaethau cerddoriaeth sy'n cynnwys ysgolion a darparwyr lleol, rhanbarthol a

chenedlaethol. Mae gan yr Hybiau Addysg Gerdd yma saith rôl a nodir yn y cynllun ac mae Adran Addysg Lloegr yn darparu cyllid i gefnogi cyflwyno'r rolau hyn. Dyrennir cyllid i bob awdurdod lleol yn ôl fformiwla sy'n seiliedig ar y niferoedd ar y gofrestr ac amddifadedd. Mae Music Mark, mewn partneriaeth â sefydliadau eraill, ar hyn o bryd yn ymgyrchu yn Lloegr am fwy o gyllid i gydnabod twf o flwyddyn i flwyddyn yn niferoedd y disgyblion a chodiadau chwyddiant o ran costau. Mae'r cais yn cyfateb i £12.50 y pen y flwyddyn i bob disgybl.

Mae Hybiau Addysg Gerdd yn Lloegr yn cael cryn effaith gyda'r cyllid cymharol fach yma drwy weithio mewn partneriaethau. I'w croesawu yn sgil hyn roedd canolbwyntio strategaethau addysg gyda darparwyr diwylliannol a pharodrwydd newydd i weithio ar lefel leol. Mae hyn wedi arwain at bartneriaethau'n gweithio'n agosach mewn sawl ardal, gyda llawer o hybiau bellach yn chwarae rolau allweddol mewn partneriaethau addysg ddiwylliannol lleol.

Byddai ymrwymiad tebyg gyda strwythur addas i Gymru gan Lywodraeth Cymru, am gost o ychydig dros £5,850,000 y flwyddyn, yn adfywio darparwyr addysg gerdd yng Nghymru, gan wrthdroi blynyddoedd o danfuddsoddi'n genedlaethol ac yn lleol, gan sicrhau'r ansawdd gorau o ran addysg gerdd i blant a phobl ifainc, lle bynnag yn y wlad y maent yn byw.

Yn ogystal â chynllun clir a chyllid priodol ac efallai o'r brys mwyaf, mae'n hanfodol y cyhoeddir canllawiau clir i egluro sut y gall addysg gerdd ailddechrau yng Nghymru yn ystod y pandemig parhaus. Mae'r myrdd o fuddion cymdeithasol ac iechyd a ddaw yn sgil cerddora wedi'u dogfennu'n helaeth ac felly gofynnwn i Lywodraeth Cymru baratoi canllawiau cenedlaethol i sicrhau nad yw deongliadau lleol o'r hyn sy'n bosibl yn atal y gallu i athrawon ddarparu addysg gerdd y mae'n rhaid iddi fod yn rhan o'r cwricwlwm adfer i Gymru.


Rydyn ni, y sefydliadau sydd wedi ysgrifennu'r llythyr hwn ar y cyd, yn barod i weithio gyda Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i ddatblygu Cynllun Addysg Gerdd Cenedlaethol i Gymru. Mae'r sector yng Nghymru eisoes yn dod at ei gilydd i'w cefnogi ei gilydd drwy fforwm trafod. Gyda chynllun cenedlaethol a chyllid tuag at y cynllun hwnnw gan Lywodraeth Cymru, byddai ein partneriaeth hefyd yn mynd ati i weithredu.

Edrychwn ymlaen at glywed gynnoch chi a chydweithio â chi i sicrhau bod gan bob plentyn yng Nghymru fynediad i addysg gerdd a'r holl fuddion a ddaw yn ei sgil yn syth ac yn y tymor hir.

Yn ddiffuant,



Deborah Keyser
Tŷ Cerdd



Bridget Whyte
Music Mark

Kevin Price
Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru

Rhian Hutchins
Anthem

CC: Y Dirprwy Weinidog dros Ddiwylliant
Pwyllgor Diwylliant a'r Gymraeg
Cyngor Celfyddydau Cymru
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

**Mae'r llythyr hwn wedi'i gefnogi gan yr aelodau canlynol o Fforwm Partneriaeth Gerddoriaeth Cymru.**

Canolfan Gerdd William Mathias
Cardiff County and the Vale of Glamorgan Music Service
Cardiff University
Carmarthenshire Council Music Service
CAVMS
Cerdd
Cerdd NPT Music
Making Music
Mid Wales Music Trust
Music Education Council
National Children's Orchestra
National Youth Jazz Orchestra
Rhondda Cynon Taf Music Service
Sinfonia Cymru
South Powys Youth Music
Theatr Clywd
Trac
Upbeat Music and Arts Service Ltd
WNO